

FestivalUK*2022

COFNODION - CYFARFOD BWRDD FESTIVAL 2022 LTD (y "Cwmni" a "Festival")

Dydd Mawrth, 6 Gorffennaf 2021

Lleoliad: Swyddfeydd Festival (6 Brindley Place) a Microsoft Teams

Y Cyfarwyddwyr ac Arsyllwyr a oedd yn bresennol:	Yn Bresennol:
<p>Y Fonesig Vikki Heywood DBE, Cadeirydd (VH) Amali de Alwis MBE (AA) Faraz Tasnim (FT) Liam Hannaway (LH) Rob Smith MBE (RS) Dr Bridget McConnell (BM) Priya Lakhani OBE (PL) Yr Athro Mary Stuart CBE (MS) Roger Lewis (RL) Roger Mosey (RM)</p> <p>Emma Squire (Arsyllydd) (ES) (Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon) Gerwyn Evans (GE) (Arsyllydd – Llywodraeth Cymru) Richard Walsh (RW) (Arsyllydd – Llywodraeth yr Alban)</p>	<p>Martin Green, Y Prif Swyddog Creadigol (MG) Phil Batty, Cyfarwyddwr Gweithredol (PB) Caroline McCrory, Prif Swyddog Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Cwmni (CM) Ian Reid (Prif Weithredwr Grŵp y Pwyllgor Trefnu a Swyddog Cyfrifyddu) Lucy Bailey, Uwch-gwnselydd Cyfreithiol (LB) David Grady, Prif Swyddog Ariannol Grŵp y Pwyllgor Trefnu (DG) Tace Jones, Cynorthwy-ydd Gweithredol (Ysgrifenyddiaeth) (TJ)</p> <p>Ymddiheuriadau Dr Hayaatun Sillem CBE (HS) (Annibynnol) Dr Maggie Aderin-Pocock (MAP) (Annibynnol) Louise Hyland (LH) (Arsyllydd – Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon)</p>

RHIF	EITEM	CYFRIF OLDEB DROS WEITHR EDU
	LLYWODRAETHU	
1a	<p><u>Croeso</u></p> <p>Croesawodd VH bawb i'r cyfarfod, cadarnhaodd yr aelodaeth, yr arsyllwyr a'r rhai a oedd yn bresennol. Nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth HS a MAP.</p> <p>Ymunodd GE, FT, PL a MS â'r cyfarfod ar-lein drwy Microsoft Teams.</p>	
1b	<p><u>Datganiadau ynghylch Buddiannau</u></p> <p>Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw wrthdaro buddiannau uniongyrchol mewn cysylltiad â busnes y cyfarfod hwn.</p> <p><u>Cymeradwyo'r Cofnodion a Materion sy'n Codi</u></p> <p>Nododd VH a RL fân ddiwygiadau i'w gwneud i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2021. Cymerodd tîm Festival gamau i wneud y gwelliannau hynny, ac ar yr amod bod y rhain yn cael eu gwneud, cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2021.</p>	
	INTEGREIDDIO CORFFORAETHOL A BUSNES	
2a	<p><u>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r Bwrdd</u></p> <p>Rhoddodd FT yr wybodaeth ddiweddaraf am Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg a nododd ddiolch y Bwrdd i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am ei gwaith i gwblhau'r adroddiad archwilio allanol.</p>	
2b	<p><u>Yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol (y "Cyfrifon")</u></p> <p>Cyflwynodd VH gyfrifon blynyddol cyntaf cwmni Festival, gan nodi'r adolygiad a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Cyflwynodd DG a SH grynodedeb o'r Cyfrifon, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf amdanynt.</p> <p>Cadarnhawyd y bydd IR yn llofnodi'r gynrychiolaeth yn y Cyfrifon, ond y bydd y Cyfarwyddwyr yn cael gwybod am y gynrychiolaeth hon cyn eu llofnodi.</p> <p>Gofynnodd VH i'r Bwrdd gymeradwyo'r Cyfrifon ar gyfer y cyfnod o 11 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.</p>	

FestivalUK*2022

2c	<p>Amlinellodd VH, yn dilyn y gymeradwyaeth hon, y bydd y Cyfrifon yn cael eu llofnodi, eu ffeilio yn Companies House, ac yna eu lanlwytho i wefan Festival.</p> <p>Cadarnhaodd VH y bydd y Cyfrifon yn cael eu cyfuno i Bwyllgor Trefnu Birmingham ar gyfer cyfrifon grŵp Commonwealth Games Limited 2022 (y "Pwyllgor Trefnu") ("Cyfrifon y Grŵp"). Caiff Cyfrifon y Grŵp eu gosod yn y Senedd ar 14 Gorffennaf 2021.</p> <p>Cadarnhaodd y Bwrdd ei fod wedi cymeradwyo cyfrifon Festival.</p> <p>Cyflwynodd DG fod cwmni Festival yn dymuno ystyried cylch adrodd 18 mis er mwyn caniatáu i Festival gyfochri â'r Pwyllgor Trefnu. Cadarnhaodd DG fod yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon yn cefnogi'r cynnig. Nodwyd y dylai amseriadau cyfarfodydd y Bwrdd gyfochri â'r cylch adrodd hwn.</p> <p>Adroddiad Cyllid</p> <p>Cyflwynodd SH yr Adroddiad Cyllid, a nodwyd hyn gan y Bwrdd.</p>	
COMISIYNU A CHYFLWYNO FESTIVAL		
3a	<p><u>Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Statws y Datblygiadau Parhaus</u></p> <p>Darparodd MG a PB yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cyffredinol comisiynau Festival. Darparodd MG ddiweddariad manylach ar gomisiwn Tour De Moon.</p> <p>Rhoddodd PB yr wybodaeth ddiweddaraf am y ddeialog fasnachol parhaus â chomisiynau Festival, gan grynhoi statws y trafodaethau contract parhaus. Cadarnhaodd PB y bydd tîm Festival yn cynnal gweithdai gyda chynrychiolwyr y comisiynau er mwyn cefnogi camau olaf y broses o negodi'r cytundebau.</p> <p>Crynhodd PB yr ohebiaeth ysgrifenedig rhwng cwmni Festival a chynrychiolwyr y comisiynau a bod hyn wedi arwain at ddeialog cadarnhaol parhaus.</p> <p>Awgrymodd PB y dylid rhoi diweddariad statws i'r Bwrdd ar gynnydd contractio pob comisiwn ar gyfer cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Awst.</p> <p>Gofynnodd PL am ragor o fanylion am amllder y taliadau comisiynu sy'n cael eu gwneud. Cadarnhaodd PB fod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â cherrig milltir a'r hyn y gellir ei gyflawni a bod y taliad nesaf i'w wneud o dan Gytundeb Amrywio Ymchwil a Datblygu ddiwedd mis Gorffennaf. Cadarnhaodd PB fod hyn yn amodol ar gysoni'r gwariant yn llawn hyd yma ac ar gynnal gwaith samplu archwiliadau.</p> <p>Cododd PL yr angen i asesu adegau porth critigol (pwyntiau penderfynu "mynd, peidio â mynd") ar gyfer comisiynau. Dywedodd MG fod Festival yn monitro hyn yn ofalus ac y byddai'n archwilio cynlluniau wrth gefn yn ôl yr angen, gan roi ystyriaeth briodol i amserlenni.</p> <p>Nododd MG hefyd fod elfennau o raglen gyhoeddus ehangach Festival (e.e. Dysgu a Chyfranogiad, neu'r Sgwrs Greadigol) a allai ffurfio rhan o unrhyw gamau lliniaru ar gyfer bylchau sy'n codi o ganlyniad i faterion gweithredu.</p> <p>Nododd PB y Broses Adfer a mesurau rheoli contractau eraill a gynhwysir yn y Cytundeb Comisiynu Llawn.</p> <p>Cododd PL y pwysigrwydd o ddiogelu cronfeydd cyhoeddus yn ystod y cam cyn cynhyrchu cynnar hwn. Cofnododd VH y dylai tîm Gweithredol Festival barhau i fonitro ac adrodd ar hyn a gofynnodd am gynnwys rhagor o wybodaeth am y broses hon yn Niweddariad Gweithredol nesaf y Pwyllgor Archwilio a Risg.</p> <p>Cadarnhaodd MG ddyddiad lansio Festival ym mis Hydref 2021.</p> <p>Pwysleisiodd RL ei fod wedi bod mewn trafodaeth agos â chomisiwn Cymru a'i fod yn dymuno diolch i dîm Festival am y cymorth y mae wedi ei ddarparu.</p>	

FestivalUK*2022

YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR ACHOS BUSNES LLAWN	
4a	<p><u>Yr wybodaeth ddiweddaraf gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Thîm Festival</u></p> <p>Darparodd ES a PB yr wybodaeth ddiweddaraf am yr achos busnes llawn a gwnaethant gadarnhau fod y ddogfen yn cael ei hysgrifennu ar y cyd gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a Festival.</p> <p>Amlinellodd ES y cynnydd cadarnhaol a wnaed o ran datblygiad yr achos busnes llawn.</p> <p>Cadarnhaodd PB fod Cyfarwyddwr Masnachol yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi ymgymryd ag archwiliad dwfn er mwyn rhoi sicrwydd annibynnol i gwmni Festival.</p> <p>Cadarnhawyd mai'r camau nesaf fydd mynd â'r achos busnes llawn i Bwyllgor Cyllid yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a rhannu'r achos busnes llawn â thri chynrychiolydd y Weinyddiaeth Ddatganoledig er gwybodaeth iddynt.</p> <p>Holodd AA y ffigurau cyfranogiad a nodwyd yn yr achos busnes llawn, ac ymatebodd ES a PB drwy egluro bod yr achos economaidd wrth wraidd yr achos busnes llawn a'i fod yn seiliedig ar y senarios a geir yn yr achos busnes llawn, ac y gallai Festival barhau i gael y lefel ofynnol o fudd-dal ac felly bod dull mwy ceidwadol wedi ei fabwysiadu at ddibenion yr achos busnes llawn.</p> <p>Cadarnhaodd MG y bydd cynulleidfaoedd yn ganolbwynt i gyfarfod y</p> <p>Bwrdd ym mis Awst. Ceisir Pwynt Cymeradwyo y Trysorlys ym mis Medi 2021.</p> <p>Cadarnhaodd ES y byddai adolygiad IPA Gateway 3 yn cael ei gynnal cyn hyn.</p>
BLAENGYNLLUN	
5a	<p><u>Unrhyw Fusnes Arall</u></p> <p>Ni thrafodwyd unrhyw fusnes ychwanegol.</p> <p>Daeth y cyfarfod i ben.</p>
Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 18 Awst 2021	